
Carmarthenshire school of gymnastics

# Pecyn Croeso



2025




Dosbarthiadau Cyn-Ysgol



Dosbarthiadau Gymnasteg Cyffredinol



Cadw'n Heini Adref



Dosbarthiadau Codwm



Sgwad Cystadleuol

www.carmarthenshireschoolofgymnastics.co.uk

01/04/2025 V1

# Ysgol wedi'i hadeiladu ar lwyddiant

Hoffwn eich croesawu i Ysgol Gymnasteg Sir Gaerfyrddin a diolch i chi am roi cyfle i'ch gymnastwr gael ei gyflwyno i gymnasteg neu i feithrin y diddordeb sydd ganddo eisoes. Gobeithio y bydd y gymnastwr, a chithau, fel eich gilydd, yn mwynhau eich amser gyda ni. Hoffwn roi gwybod i chi am yr wybodaeth hanfodol ganlynol, sy'n hollbwysig i sicrhau effeithiolrwydd y sefydliad.

Dros bedwar deg chwech o flynyddoedd yn ôl dechreuodd y sylfaenydd, Sharon Evans, gynnal dosbarthiadau Gymnasteg yng Nghaerfyrddin am awr bob bore Sadwrn. Daeth y dosbarthiadau i fod yn boblogaidd, ac roedd y rheiny a oedd yn cymryd rhan 'am gael mwy!' Dros y blynyddoedd mae Sharon wedi arwain Ysgol Gymnasteg Sir Gaerfyrddin o nerth i nerth, gan alluogi plant Sir Gaerfyrddin i hyfforddi am gyfnodau hwy, a’r clwb i gaffael cyfarpar gymnasteg proffesiynol i’r aelodau hyfforddi i gystadlu ar gyfarpar a gymeradwyir gan y Ffederasiwn Gymnasteg Rhyngwladol (FIG).

Yn ogystal â phlannu’r hedyn i nifer o gymnastwyr Sir Gaerfyrddin ddatblygu ymhellach a symud yn eu blaen i gyflawni eu dyheadau, mae’r clwb wedi meithrin llawer o bobl i fod yn hyfforddwyr a dyfarnwyr. Mae'r rhan fwyaf o'r hyfforddwyr ifanc wedi cyflawni'r broses o newid o fod yn gymnastwr i fod yn hyfforddwr yn y clwb.

Yn 2006, creodd Ysgol Gymnasteg Sir Gaerfyrddin Ganolfan Ddatblygu yn Neuadd Cefneithin i alluogi gymnastwyr y Sgwad Datblygu i hyfforddi’n amlach, a Sgwad Paratoadol, sef Sgwad Datblygu Cyffredinol, i esblygu. Datblygodd hyn ymhellach wrth i gymnastwyr y sgwad lwyddo mewn cystadlaethau lleol a chenedlaethol, ac ym mis Ionawr 2010 agorwyd y Ganolfan Gymnasteg yng Nghanolfan Hamdden Caerfyrddin gan Ei Huchelder Brenhinol y Dywysoges Ann mewn Digwyddiad Mawreddog, datblygiad a fyddai'n galluogi rhagor o blant Sir Gaerfyrddin i gymryd rhan; ac ers 1 Mawrth 2014 mae wedi symud ymlaen ymhellach fyth wrth i Ganolfan Gymnasteg newydd sbon o'r radd flaenaf agor yn Cross Hands.

Mae hanes llwyddiant Ysgol Gymnasteg Sir Gaerfyrddin wedi digwydd oherwydd y galw gan y cyhoedd, sy'n amlwg o lwyddiannau gymnastwyr lleol wrth iddynt gyflawni eu dyheadau.

Mae gan Ysgol Gymnasteg Sir Gaerfyrddin bellach raglen Ddatblygu gwbl gynhwysfawr ledled Sir Gaerfyrddin, a gall ymfalchïo mai'r clwb hwn oedd Clwb Tymblo gorau Cymru yn 2018, 2019, 2020, 2021 a 2023. Bob blwyddyn ers Pencampwriaeth Rowndiau Terfynol Rhyngranbarthol Tymblo Cymru 2020 yr RCC, mae cyfanswm o 12 o gymnastwyr wedi eu dewis i gynrychioli Cymru ym Mhencampwriaeth Rowndiau Terfynol Rhyngranbarthol Tymblo Prydain yr RCC. Yn 2022 enillodd Rose Burson Fedal Efydd Brydeinig, yn 2023 enillodd Florence Williams Fedal Efydd ac enillodd Nel McWilliams Fedal Arian, ac yn 2024 enillodd Griff Mackintosh-Jones, bachgen ifanc naw oed, Fedal Arian. .

Oddi ar 2018 pan enillodd Jade Evans Fedal Arian y Byd yn ei grŵp oedran ym Mhencampwriaeth Tymblo y Byd 2018 yn St Petersburg, Rwsia, ysbrydolodd gynifer o’n gymnastwyr i ddilyn y Llwybr Elitaidd ar gyfer gymnastwyr fel bod yna bellach wyth o'n gymnastwyr yn cystadlu ym Mhencampwriaethau Tymblo Prydain, sef y gymnastwyr benywaidd Mared Rees, Millie Preece, Tia Powell, Florence Williams, Shannon Ross, Jade Evans a Lauren Watts, ynghyd â Luca Burgess-Williams, sef ein gymnastwr gwrywaidd.

Yn ystod y flwyddyn gystadlu ddiwethaf hon, roedd Ysgol Gymnasteg Sir Gaerfyrddin yn ymfalchïo bod chwech o’n gymnastwyr ein hunain yn cynrychioli TÎM CYMRU yn 16eg Pencampwriaeth Cwpan Tymblo Rhyngwladol Loulé, ym Mhortiwgal, a llwyddodd Luca yn rhan o Dîm Dynion Cymru, i gipio'r Fedal Tîm Efydd, a dychwelyd adref â'i Fedal Arian unigol ei hun am ei wddf.

*Sharon Evans*

**Ysgol Gymnasteg Sir Gaerfyrddin**
**Rheolwr Gyfarwyddwr**

# Y TÎM HYFFORDDI

| | |
|---|---|
| *Rheolwr Gyfarwyddwr* | Sharon Evans |
| *Rheolwr Tymblo*<br>*Rheolwr Artistig y Menywod*<br>*Rheolwr y Sgwad Datblygu Cyffredinol*<br>*Rheolwr Cyffredinol y Dosbarthiadau*<br>*Y Rheolwr Cyn Oed Ysgol*<br>*Y Rheolwr Trampolinio* | Shelley Pace<br>Shelley Pace<br>Jessica Nicklin<br>Sian Davies/Jessica Nicklin<br>Anneliese Evans<br>James Harries |
| *Hyfforddwr Gymnasteg Perfformiad Tymblo B.A.G.A. Lefel 4*<br><br>*Hyfforddwr Gymnasteg Tymblo B.A.G.A. y Clwb Lefel 2*<br><br>*Hyfforddwr Cynorthwyol Gymnasteg Tymblo B.A.G.A. y Clwb Lefel 1* | Shelley Pace<br><br>Anneliese Evans<br>Cilan Thomas<br><br>Adrienne Emmanuel<br>Anneliese Evans<br>Cilan Thomas<br>Emily Evans<br>James Harries<br>Shannon Ross |
| *Hyfforddwr Gymnasteg Artistig B.A.G.A. y Menywod Lefel 2*<br><br>*Hyfforddwr Cynorthwyol Gymnasteg Artistig B.A.G.A. y Menywod Lefel 1* | Anneliese Evans<br>Jessica Nicklin<br><br>Emily Evans |
| *Hyfforddwr Gymnasteg Gyffredinol B.A.G.A. y Clwb Lefel 3* | Anna Beynon<br>Sian Davies |
| *Hyfforddwr Gymnasteg Gyffredinol B.A.G.A. Lefel 2*<br><br>*Hyfforddwr Gymnasteg Gyffredinol B.A.G.A. Lefel 1*<br><br>*Hyfforddwr Gymnasteg Trampolîn B.A.G.A. Lefel 1* | Anneliese Evans<br>James Harries<br>Katie Jones<br>Lucie Jones<br><br>Melanie Flounders<br><br>Elina Deacon<br>Katie Jones |

# Y TÎM HYFFORDDI

| | |
|---|---|
| Dyfarniad Arweinwyr Chwaraeon U.K.C.C. | Ava Gregory<br>Caitlin Hughes<br>Carys Lewis<br>Elina Deacon<br>Elli-May Williams<br>Emily Croucher<br>Erin Walters<br>Gabrielle Pace<br>Harlee Cadwell<br>Katie Jones<br>Lowri Morgan<br>Luca Burgess-Williams<br>Millie Preece<br>Molly Gittins<br>Morgan Owen<br>Olivia Owen<br>Phoebe Thomas<br>Rose Burson<br>Summer Grace Buckland Walsh<br>Tianna Rose Davies<br>Yasmin Burgess-Williams |

Roedd mwyafrif yr hyfforddwyr yn gymnastwyr a hyfforddwyd gan Sharon, a thros amser maent wedi meithrin eu sgiliau hyfforddi i sicrhau bod eu harbenigedd yn cael ei ddefnyddio mewn modd cadarnhaol i gynhyrchu talent y dyfodol. Anogir gymnastwyr hŷn hefyd i feithrin eu sgiliau hyfforddi yn barod ar gyfer arholiadau Cymdeithas Gymnasteg Amatur Prydain (B.A.G.A.):

- **Cynorthwyydd Hyfforddi Gymnasteg Gyffredinol B.A.G.A.** Lefel 0/Arweinydd Chwaraeon UKCC [14 oed o leiaf]
- **Hyfforddwr Cynorthwyol B.A.G.A**. Lefel 1 [16 oed o leiaf]
- **Hyfforddwr B.A.G.A.** Lefel 2 [18 oed o leiaf]
- **Hyfforddwr Clwb B.A.G.A**. Lefel 3-Lefel 5 [18 oed o leiaf]

Mae'r cymwysterau hyn yn dystiolaeth o'u profiad ar gyfer eu CV, ac yn fanteisiol i gael lle mewn coleg i ennill cymwysterau addysgu pellach i fynd i'r proffesiwn addysgu. Hyfforddi gweithwyr proffesiynol yfory.

Ar hyn o bryd mae ein tîm Hyfforddi yn hyfforddi gymnastwyr yng Nghaerfyrddin, Rhydaman, Llandeilo a Chwm Gwendraeth trwy gydol yr wythnos, a Thrampolinwyr yn y Ganolfan Trampolinio yng Nghanolfan Gymnasteg Cross Hands.

Dosbarthiadau Cyffredinol yw’r rhain ac maent yn ddosbarthiadau sy'n bwydo’r Sgwad Cyffredinol, y Sgwad Datblygu Cyffredinol, y Sgwad Rhagbaratoi, y Sgwad Paratoi, y Sgwad Datblygu Iau, yr Uwch-sgwad Datblygu Iau, y Sgwad Datblygu Hŷn, Sgwad Tymblo Perfformiad Uchel a Sgwad Tymblo Elitaidd y Ffederasiwn Gymnasteg Rhyngwladol (FIG), sydd wedi’u lleoli yn y Ganolfan Gymnasteg yng Nghanolfan Siopa Sgwâr Cross Hands, Cross Hands, Llanelli, Sir Gaerfyrddin SA14 6NT. Mae'r Ganolfan hon yn gampfa sydd wedi'i gosod drwyddi draw â chyfarpar o arddull Olympaidd ar gyfer Disgyblaethau Artistig y Dynion a'r Menywod, dau drampolîn Safon Cystadlu ar gyfer y Ddisgyblaeth Trampolinio, a Thrac Tymblo Rwsiaidd Skakoun o Safon Cystadlu ar gyfer y Ddisgyblaeth Tymblo. Gall pob Dosbarth Hamdden Cyn Oed Ysgol, Gymnasteg Gyffredinol a Thrampolinio elwa o'r cyfarpar hwn.

Mae gymnastwyr/trampolinwyr sy'n amlygu potensial a gallu naturiol ym maes gymnasteg/trampolinio yn cael y cyfle i symud yn eu blaen i feithrin eu sgiliau ac ymrwymo i gystadlu mewn cystadlaethau Gymnasteg a Thrampolinio

# FFIOEDD TYMOR

- Y gost am DEG wythnos awr o Ddosbarth Gymnasteg Cyffredinol Cyn-ysgol yw £90.00 y tymor a delir ar ddechrau pob tymor. (£9.00 y sesiwn)

- Mae cost sesiwn DEG wythnos Cyn Ysgol, Gymnasteg Cyffredinol neu Trampolîn o fwy nag awr dros amrywiaeth o ddosbarthiadau fel a ganlyn.

- Cyn Ysgol, Gymnasteg Cyffredinol neu Trampolîn 2 awr / £155.00 y tymor
- Cyn Ysgol, Gymnasteg Cyffredinol neu Trampolîn 3 awr / £187.50 y tymor
- Cyn Ysgol, Gymnasteg Cyffredinol neu Trampolîn 4 awr / £220.00 y tymor
- Cyn Ysgol, Gymnasteg Cyffredinol neu Trampolîn 5 awr / £250.00 y tymor

## Dulliau talu

Taliad Ar-lein trwy LoveAdmin
neu
Manylion Trosglwyddo Banc:
*Manylion banc a ddarperir ar ôl cofrestru*
Cyfeirnod: Enw Gymnast / Tymor y Gwanwyn (2) 2025

Os na fydd gymnastwr/trampolinydd yn setlo ar ôl yr wythnos gyntaf, siaradwch â Sharon i baratoi "Cynllun Ymgartrefu". Os bydd unrhyw gymnastwr na ddylai fod eisiau parhau ar ôl y cyfnod setlo y cytunwyd arno, gweler Sharon i drafod ad-daliad o'r Ffi Cofrestru. Ni fydd unrhyw gymnastwr sy'n penderfynu gadael yn ddiweddarach yn y cwrs yn gymwys i gael ad-daliad yn awtomatig. Bydd pob cais am ad-daliad yn cael ei asesu ar sail unigol.

# YSWIRIANT

Rhaid i bob gymnastwr/trampolinwr fod yn aelod o'r cyrff llywodraethu gymnasteg, sef Gymnasteg Cymru Cyf. a Gymnasteg Prydain Cyf.

Mae'r ffi ymaelodi yn dibynnu ar oedran y gymnastwr/trampolinwr yn ystod y cyfnod 1 Hydref 2022 tan 30 Medi 2023, ac mae'n cynnwys Yswiriant Rhag Damweiniau Personol. Rhaid talu'r ffi ymaelodi hon yn y lle cyntaf i Ysgol Gymnasteg Sir Gaerfyrddin ac yna, i gael mynediad at wefan Gymnasteg Cymru/Gymnasteg Prydain i gofrestru fel gymnastwr newydd, i fod yn aelod cyswllt ...

Er mwyn i'r sefydliad gael Yswiriant Atebolrwydd Cyhoeddus, rhaid i bob gymnastwr/trampolinwr fod yn aelod o Gymnasteg Cymru a Gymnasteg Prydain, a meddu ar ei Yswiriant Rhag Damweiniau Personol ei hun.

Mae gan yr holl hyfforddwyr eu Hyswiriant Atebolrwydd Cyhoeddus personol eu hunain i'w hyswirio wrth iddynt hyfforddi'r gymnastwyr.

# IECHYD, DIOGELWCH A LLES Y GYMNASTWR

- Sicrhewch fod y Gymnastwyr/Trampolinwyr wedi defnyddio'r toiled cyn dod i'r dosbarth, a hynny er mwyn atal unrhyw risg o ddamwain pe bai gymnastwr yn gorfod gadael y gampfa.

- Sicrhewch fod y Gymnastwyr/Trampolinwyr yn gwisgo leotard, siorts, a chrys T, legins neu drowsus tracsiwt ac iddo elastig wrth y pigyrnau [dim trowsus tracsiwt sy'n llydan ar waelod y goes]. Dim sanau, troednoeth yn unig. [Caniateir i drampolinwyr wisgo sanau ar wely'r Trampolîn]

- Sicrhewch fod gwallt y Gymnastwyr/Trampolinwyr wedi'i glymu'n ôl yn ddiogel, yn daclus ac yn drwsiadus.

- Rhieni/Gwarcheidwaid Cyfreithiol sy'n gyfrifol am y gymnastwyr/trampolinwyr pan fyddant yn yr ystafelloedd newid a'r coridorau. Cofiwch sicrhau disgyblaeth bob amser, a gwnewch yn siŵr nad ydynt yn rhedeg na chamymddwyn.

- Peidiwch â thorri ar draws sesiynau hyfforddi. Os ydych am siarad â hyfforddwr neu Reolwr Dosbarth, gwnewch drefniadau ymlaen llaw i gwrdd, a hynny trwy anfon neges e-bost i admin@csogymnastics.co.uk. Cyfeiriwch at y Polisi Gweithredol newydd ar gyfer COVID-19.

- Ewch gyda'r gymnastwr/trampolinwr i'r gampfa ar ddechrau'r sesiwn os gwelwch yn dda. Gallai dosbarthiadau gael eu canslo ar fyr rybudd oherwydd digwyddiadau y tu hwnt i'n rheolaeth, ac nid yw bob amser yn bosibl cysylltu â'r holl gymnastwyr. Bydd gwybodaeth am ddosbarthiadau sydd wedi'u canslo oherwydd y tywydd neu achosion tebyg, y mae'n rhaid gwneud penderfyniad yn eu cylch ar fyr rybudd, yn cael ei harddangos cyn gynted â phosibl ar dudalen Facebook Ysgol Gymnasteg Sir Gaerfyrddin, a bydd Rheolwyr y Dosbarthiadau yn anfon neges yn y grŵp WhatsApp at yr holl rieni/warcheidwaid cyfreithiol.

- Sicrhewch eich bod yn casglu'r gymnastwr/trampolinwr o'r gampfa yn brydlon. Ni chaniateir i'ch plentyn/plant adael y gampfa, heb neb yn cadw golwg arno/arnynt, i fynd at gerbyd sy'n aros amdano/amdanynt yn y maes parcio, oni bai fod y Prif Hyfforddwr wedi rhoi caniatâd ymlaen llaw i hynny ddigwydd. Os nad chi fydd yn casglu eich plentyn, rhowch wybod i hyfforddwr y gymnastwr/trampolinwr neu Reolwr y Dosbarth pwy fydd yn gwneud hynny.

- Sicrhewch eich bod yn darllen pob gohebiaeth fel na fydd yn rhaid i rieni giwio ar ddechrau/ddiwedd y sesiwn hyfforddi i ofyn cwestiynau, neu i osgoi camddealltwriaethau. Mae gennym dudalen Facebook i rieni, sy'n cael ei diweddaru â gwybodaeth hanfodol a gwybodaeth am ddosbarthiadau, ac rydym yn dosbarthu llythyrau i roi gwybod i rieni am ddigwyddiadau neu newidiadau i'r sesiynau.

- Mae'r clwb yn cadw at 'Bolisi Dim Gemwaith' Gymnasteg Prydain, sy'n gwahardd unigolion rhag gwisgo oriawr neu emwaith, gan gynnwys gemwaith tyllu'r corff, yn ystod sesiwn gymnasteg/drampolinio.

## Swyddogion Amddiffyn Plant a Lles y Clwb

yw

Fiona [Ffi] Shields 07562 341265/wfocsogwelfareofficer2022@gmail.com

## Os oes gennych bryder ynghylch lles:

- Os yw eich pryder yn ymwneud â digwyddiad penodol, cofnodwch y dyddiad a'r amser y digwyddodd, a rhowch wybod amdano cyn gynted â phosibl. Gwnewch nodyn hefyd o'r ffeithiau allweddol sy'n ymwneud â'r digwyddiad.

- Os oes gennych bryder cyffredinol, gwnewch nodyn o brif bwyntiau eich pryder a rhowch wybod i Fiona.

- Os nad ydych yn siŵr a ydych am roi gwybod am bryder ai peidio, rydym yn eich cynghori i roi gwybod amdano. Mae'n bwysig bod y clwb yn ymwybodol o'ch pryderon hyd yn oed os ydych yn ansicr yn eu cylch. Mae cyflogeion y clwb yn rhwym wrth eu codau ymddygiad i drin pob adroddiad mewn modd cwbl gyfrinachol, a chyda'r disgresiwn mwyaf.

- Os nad ydych am fynegi eich pryder wrth Anna am ba reswm bynnag, cysylltwch â'r Rheolwr Gyfarwyddwr – Sharon Evans – 07588 221117 – admin@csogymnastics.co.uk

## Os bydd angen i chi gysylltu â'r Swyddog Lles:

Gallwch fynegi eich pryderon wyneb yn wyneb trwy ffonio Fiona [Fee] Shields ar 07562 341265 a threfnu amser a lle i gwrdd sy'n hwylus i'r ddau/ddwy ohonoch.
Gallwch fynegi eich pryder trwy anfon neges e-bost:

- wfocsogwelfareofficer2022@gmail.com

- Gallwch drafod y pryder dros y ffôn os nad ydych yn gyfforddus yn gwneud hynny wyneb yn wyneb.

- Gallwch ysgrifennu llythyr yn tynnu sylw at eich pryderon, ei selio mewn amlen wedi'i labelu'n glir, a'i rhoi i Anna neu Sharon pan fyddwch yn eu gweld, neu gallwch drefnu i gwrdd â nhw.

- Gallwch anfon llythyr yn ddienw sy'n tynnu sylw at eich pryderon – fodd bynnag, byddwch yn ymwybodol ei bod yn llawer anoddach mynd i'r afael â'r broblem os na allwn gysylltu â'r person sydd wedi sylwi arni.

## Sylwch fod gennym

Weithdrefn Gwyno sydd i'w gweld ar eich tudalen Cofrestru LoveAdmin.

## LLYFR DAMWEINIAU

Rhaid cofnodi pob damwain yn y Llyfr Damweiniau a rhoi gwybod i Swyddogion Lles ac Amddiffyn Plant y clwb.

## AMDDIFFYN PLANT

Mae pob hyfforddwr yn cael gwiriad manylach y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) yn rheolaidd. Mae gymnasteg yn gamp sy'n golygu cynnal unigolion yn gorfforol, ac i sicrhau diogelwch y gymnastwr mae'n rhaid i ni ei.

gynnal/chynnal nes y bydd yn gallu cyflawni'r elfen benodol heb gymorth. Os bydd y gymnastwr yn teimlo'n anesmwyth ar unrhyw adeg, sicrhewch eich bod yn siarad â mi, y Rheolwr Gyfarwyddwr, Rheolwr Dosbarth y plentyn, neu Anna Beynon, Swyddog Lles ac Amddiffyn Plant y sefydliad.

## ASESU RISGIAU A RHESTR GWIRIO CYFARPAR

Rhaid i Ysgol Gymnasteg Sir Gaerfyrddin asesu risgiau yn rheolaidd i sicrhau Iechyd, Diogelwch a Lles y gymnastwr/trampolinwr. Caiff copi o'r gwiriadau hyn ei gofnodi a'i gadw. Dylai pawb fod yn ymwybodol o'r risgiau canlynol.

Gymnastwyr Caerfyrddin – Dylai rhieni'r holl gymnastwyr fod yn ymwybodol bod aelodau o'r cyhoedd, yn wryw a benyw, yn rhannu'r ystafelloedd newid i ddefnyddio'r cawodydd, ac na all Cyngor Sir Caerfyrddin atal y cyhoedd rhag eu defnyddio yn ystod dosbarthiadau gymnasteg. Ar adegau mae dŵr i'w weld ar lawr yr ystafelloedd newid, felly ystyriwch y risg ac ewch gyda'r gymnastwr i'r ystafelloedd newid neu sicrhewch ei fod/bod wedi newid cyn cyrraedd.

## Pob lleoliad

Gall parcio ceir yn ystod cyfnodau prysur fod yn broblem ym mhob lleoliad. Dylai pob rhiant sy'n ymweld â'r Ganolfan Gymnasteg yn Cross Hands barcio yn y prif faes parcio os gwelwch yn dda. Gofynnwn i chi ymatal rhag gyrru i'r ardal gyfyng a chul ger mynedfa'r Ganolfan Gymnasteg, lle gall ceir sy'n troi fod yn beryglus. Byddwch yn wyliadwrus lle rydych yn parcio eich cerbyd a pheidiwch â rhwystro mynedfeydd neu ddrysau siopau.

## TECHNEGAU ADDYSGU

Addysgir yr holl gymnastwyr/drampolinwyr trwy ddefnyddio dulliau cynnydd diogel. Mae'r gymnastwyr/trampolinwyr yn cael eu hyfforddi i baratoi i basio Dyfarniadau Hyfedredd B.A.G.A. Fel arfer, trefnir i gyflwyno'r Dyfarniadau ar ddiwedd Tymor y Gaeaf a Thymor yr Haf. Bydd hyn yn galluogi'r rhiant/gwarcheidwad cyfreithiol i fonitro cynnydd y gymnastwr/trampolinwr. Ni fydd gymnastwr/trampolinwr o reidrwydd yn llwyddo i gyflawni dyfarniad ar ddiwedd pob tymor o ddeg wythnos, oherwydd wrth i'r gymnastwr/trampolinwr wneud cynnydd tuag at y Dyfarniadau uwch, mae'r elfennau'n mynd yn anoddach, yn amlwg, ac yn cymryd rhagor o amser i'w cyflawni a'u perfformio heb gymorth, a'u perffeithio.

Y nod yw galluogi'r gymnastwyr/trampolinwyr i feithrin profiad trwy fwynhau a pherffeithio eu technegau heb iddynt deimlo dan bwysau.

## POLISI CYDWEITHIO

Rydym yn gweithredu polisi cydweithio rhwng rhieni a'r sefydliad. Os oes gan riant unrhyw broblemau neu bryderon, trefnwch apwyntiad preifat i drafod y materion hyn â'r Rheolwr Gyfarwyddwr, neu Reolwr y Dosbarth.

Hefyd, os na fydd unigolyn yn fodlon ar unrhyw beth, rhowch wybod i ni am eich argymhellion neu eich awgrymiadau er mwyn i'r sefydliad eu hystyried a'u mabwysiadu i wella'n barhaus.

## CYSYLLTU

Os bydd ar unrhyw un angen rhagor o wybodaeth, cysylltwch â Sharon ar 01269 845384 [nosweithiau] neu anfonwch neges e-bost i admin@csogymnastics.co.uk

*Sharon Evans*
**Ysgol Gymnasteg Sir Gaerfyrddin**
**Rheolwr Gyfarwyddwr**